Gŵyl o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf

Cysyniadau: **Diolch, rhannu, gwerthfawrogiad, cydddibyniaeth, cydweithio.**

Amcan: **Dysgu'r plant i werthfawrogi a diolch am fwyd a diod.**

Cyfarpar: **Enghreifftiau o wahanol fwydydd, ffrwythau, llysiau a blodau.**

Cyflwyniad:

● Mae'r neuadd wedi'i haddurno heddiw. Pam, tybed? Cyfle i'r plant gyfeirio at y gwahanol fwydydd, dail. Cyfeirio at y lliwiau.

● Mae Gŵyl o Ddiolchgarwch yn gyfle i ddatblygu'r cysyniad o gydddibyniaeth a chydweithio.

Stori:

Un tro roedd yna lygoden fach, frown yn byw ar ei phen ei hun mewn hen, hen eglwys ynghanol y wlad. Yn aml iawn roedd y llygoden fach yn llwglyd. Doedd dim byd i'w fwyta yn yr eglwys. Felly byddai'n gorfod mynd allan i'r caeau a'r llwyni o gwmpas i chwilio am fwyd. Ond taith beryglus iawn oedd hon gan fod tylluanod ac adar eraill ysglyfaethus yn byw yn y caeau. Yn aml byddai'r llygoden fach ofn mynd allan ac felly byddai'n mynd am rai dyddiau heb fwyd o gwbl.

Un noson ym mis Hydref cyrhaeddodd criw o bobl i'r eglwys efo pob math o fwydydd. Afalau, orennau, cnau, bara, grawnwin a blodau hyfryd. Ar ôl i bawb fynd adref dyma'r llygoden fach yn dechrau arni i fwyta'r bwydydd blasus nes bod ei stumog yn llawn. Roedd y llygoden fach yn ei chael hi'n anodd cerdded i'r twll yn y wal. Roedd ei stumog yn dew, dew. Ar ôl cyrraedd syrthiodd i gysgu a chysgodd yn drwm tan amser cinio y diwrnod wedyn.

Daeth dydd Sul heibio. Ond roedd y Sul hwn yn wahanol. Roedd yr eglwys dan ei sang a phawb yn canu'n hwyliog. Erbyn hyn roedd y llygoden fach wedi deall mai Gŵyl o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf oedd yn digwydd.

Meddai'r llygoden fach, 'Mae'n biti na fyddai hi'n ŵyl o ddiolchgarwch bob wythnos, nid am fy mod i wedi cael digon i'w fwyta ond am fod pawb yn hapus.'

Y diwrnod wedyn roedd y bwyd a'r blodau i gyd wedi diflannu. Gwrandawai'r llygoden fach ar sgwrs y bobl. Roedd rhai am fynd â'r bwydydd a'r blodau i'r ysbyty, eraill i gartref yr henoed a'r lleill i bobl wael yn yr ardal.

Meddai'r llygoden fach, 'Tybed ydyn nhw'n gwybod eu bod nhw wedi rhoi ychydig o fwyd i lygoden fach lwglyd a thlawd.'

Trafodaeth bellach:

- Ydych chi'n cydymdeimlo â'r llygoden fach lwglyd?

- Mae'r bobl wedi dod i'r eglwys i ddiolch am y bwyd ac ar ôl diolch maen nhw'n barod i'w rannu. Pa mor bwysig ydi rhannu ymhlith ein gilydd? Ydyn ni'n gwneud digon o hynny, nid yn unig ar Ŵyl o Ddiolchgarwch, ond bob dydd o'n bywyd?

- Trafod cyfraniad banciau bwyd.

- Trafod y cynnyrch sydd ar y bwrdd a phwysleisio'r cysyniad o gyd-ddibyniaeth. Holi o ble mae'r cynnyrch yn dod. Y reis, yr afalau, orennau, bananas, gwenith. Sut mae gwahanol dywydd a hinsawdd yn effeithio ar y cnydau? Sut maen nhw'n cael eu cario o un wlad i'r llall?

Dyfyniad o'r Beibl:

Mae'r gair 'diolch' neu 'ddiolchgarwch' yn amlygu'i hun droeon yn y Beibl.

Dyma enghraifft o'r Hen Destament:
Diolchwch i'r Arglwydd!

Mae e mor dda aton ni;
mae ei haelioni yn ddiddiwedd!
Salm 106:1 beibl.net

Dyma enghraifft o'r Testament Newydd:
Byddwch yn ddiolchgar beth bynnag ydy'ch sefyllfa chi.
1 Thesaloniaid 5:18 beibl.net

Emyn: Aeth ffermwr i hau: Canu Clod 6

Trafodaeth bellach:

- Trafod beth i'w wneud gyda'r cynnyrch.

- Y plant i gael cyfle i rannu a chynnal gwasanaeth byr yn y cartref neu'r ysbyty neu ganolfan y banc bwyd.

Myfyrdod/Gweddi:

Mae heddiw yn ddydd o ddiolch.
Am y byd da yr ydym yn byw ynddo.
Am ein cadw rhag newyn ac angen.
Ond cofiwn am rai heddiw
sydd heb ddim,
dim bwyd, dim diod, dim dillad na chysgod.
Helpa ni i'w helpu nhw. Amen.